

Adolygiad o Reoliad a Ddargedwir 2016/6 ar fewnforio bwyd o Japan yn dilyn damwain niwclear Fukushima

Dyddiad lansio: 10 Rhagfyr 2021

Ymateb erbyn: 11 Chwefror 2022

I bwy bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf?

- Mewnforwyr pysgod, madarch a llysiau gwyllt wedi'u fforio (*foraged*) o Japan i'r Deyrnas Unedig (DU).
- Busnesau bwyd yn y DU gan gynnwys manwerthwyr a bwytai sy'n arbenigo mewn bwyd o Japan a defnyddwyr y bwydydd hyn.

Pwnc yr ymgynghoriad

Fe gafodd Rheoliad 2016/6 ei ddargadw ym Mhrydain Fawr yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE) ac mae'n cymhwyso rheolaethau manylach ar rai bwydydd wedi'u mewnforio o Japan o ganlyniad i ddamwain niwclear Fukushima ym mis Mawrth 2011. Mesur brys oedd hwn i ddiogelu defnyddwyr rhag bwyd wedi'i fewnforio a allai fod wedi ei halogi â deunydd ymbelydrol a ryddhawyd yn dilyn y ddamwain niwclear.

Mae Rheoliad a ddargedwir 2016/6 yn cymhwyso'r lefelau uchaf o gesiwm ymbelydrol ar fwyd a bwyd anifeiliaid o Japan. Fodd bynnag, gellir mewnforio mwyafrif y bwydydd o Japan eisoes i'r DU heb unrhyw reolaethau manylach gan fod lefelau ymbelydredd yn

isel iawn ac ymhell islaw'r lefelau uchaf hyn. Mae'r rheolaethau manylach yn berthnasol i nifer gyfyngedig o fwydydd gan gynnwys rhai rhywogaethau o bysgod, madarch gwyllt a llysiau Japaneaidd wedi'u fforio y mae rheolaethau manylach yn parhau i fod ar waith ar eu cyfer. Dim ond mewn symiau bach y mae'r cynhyrchion hyn yn cael eu mewnforio i'r DU, yn bennaf ar gyfer bwytai sy'n arbenigo mewn bwyd Japaneaidd a defnyddwyr bwydydd traddodiadol Japaneaidd.

Pwrrpas yr ymgynghoriad

Gofyn am sylwadau gan y diwydiant, awdurdodau gorfodi, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â buddiant o ran ein dewisiadau rheoli risg i gadw, diwygio neu ddirymu Rheoliad a Ddargedwir 2016/6.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi cynnal asesiad risg sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan yr ASB.

Nid ydym yn ceisio sylwadau ar yr asesiad risg sydd wedi'i adolygu'n annibynnol.

Sut mae ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at radiation@food.gov.uk.

Manylion yr ymgynghoriad

Cefndir

Ym mis Mawrth 2011, cafwyd daeargryn oddi ar arfordir dwyreiniol Japan gan arwain at tswnami. Achosodd hyn ddifrod i orsaf ynni niwclear Fukushima Daiichi a arweiniodd at halogiad ymbelydrol a wnaetheffeithio ar rannau o Japan a'r bwyd a bwyd anifeiliaid a dyfir yn yr ardaloedd hyn.

Rhoddodd y Comisiwn Ewropeaidd ddeddfwriaeth frys ar waith ar fewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid o Japan o ganlyniad i'r ddamwain hon. Ers y ddamwain, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi adolygu'r rheolaethau hyn yn rheolaidd. Ym mhob adolygiad, ystyriwyd data ar halogiad bwyd a bwyd anifeiliaid yn Japan, a diwygiwyd y rheolaethau. Mewn

adolygiadau diweddar, mae'r ystod o fwyd a bwyd anifeiliaid a gwmpesir gan y rheolaethau a'r rhanbarthau lle mae angen gwiriadau manylach cyn eu hallforio wedi lleihau gan fod monitro wedi dangos bod llai o fwydydd wedi'u halogi. Roedd yr adolygiad diweddaraf yn 2019, a gosodwyd dyddiad adolygu newydd yn y ddeddfwriaeth ar gyfer 30 Mehefin 2021.

Daeth Rheoliad yr UE 2016/6 sy'n gosod amodau arbennig ar fewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid o Japan i rym yn 2016 gan ddisodli fersiynau blaenorol o'r rheolaethau hyn. Sylwch, er bod y Rheoliad yn cyfeirio at fwyd anifeiliaid, nid yw'r un o'r cynhyrchion a restrir ar hyn o bryd yn Atodiad 2 o'r Rheoliad, sy'n parhau i fod yn ddarostyngedig i'r rheolaethau manylach, yn debygol o gael eu defnyddio fel bwyd anifeiliaid.

Yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, cadwyd y Rheoliad hwn ym Mhrydain Fawr ynghyd â'r gofyniad i'r awdurdod priodol adolygu'r rheolaethau hyn. Yr awdurdod priodol yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr, Gweinidogion Cymru yng Nghymru a Gweinidogion yr Alban yn yr Alban. Mae'r ASB yng Nghymru a Lloegr a'r FSS yn yr Alban wedi bod yn cynnal adolygiad yn unol â'u swyddogaeth o ddatblygu polisi a darparu cyngor mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig â diogelwch bwyd neu fuddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd a bwyd anifeiliaid fel y darperir yn Adrannau 6 a 9 Deddf Safonau Bwyd 1999. Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn bellach cyn cyngori'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr, Gweinidogion Cymru yng Nghymru a Gweinidogion yr Alban yn yr Alban.

O dan delerau Protocol Gogledd Iwerddon o dan Gytundeb Ymadael y DU gyda'r UE, bydd Gogledd Iwerddon yn parhau i gymhwyso Rheoliadau'r UE yn y maes hwn. Fodd bynnag, croesewir barn rhanddeiliaid Gogledd Iwerddon, er enghraifft ar unrhyw oblygiadau ar farchnad fewnol y DU o ran y cynigion hyn.

Ers y ddamwain, mae'r awdurdodau yn Japan wedi monitro bwyd a bwyd anifeiliaid yn eang, ac adroddwyd dros 2.5 miliwn o samplau dros y 10 mlynedd flaenorol. Cyhoeddir y canlyniadau hyn ar [wefan Gweinyddiaeth Iechyd a Lles Japan](#).

Rheolaethau cyfredol

Mae Rheoliad a Ddargedwir 2016/6 yn cymhwyso'r lefelau uchaf o gesiwm ymbelydrol (cesiwm-134 a chesiwm-137, y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel radiocesiwm yn yr ymgynghoriad hwn) ar fwyd a bwyd anifeiliaid o Japan o ganlyniad i ddamwain

Fukushima. Darperir y lefelau uchaf hyn yn Atodiad 1 o Reoliad 2016/6. Mae gwahanol lefelau wedi'u gosod ar gyfer

- bwydydd i fabanod a phlant ifanc,
- llaeth a diodydd sy'n cynnwys llaeth,
- dŵr mwynol a diodydd tebyg a the wedi'i fragu o ddail wedi'u heplesu, a
- bwydydd eraill.

Mae mwyafrif y bwydydd yn Japan ymhell islaw'r lefelau hyn ac felly mae rheolaethau manylach yn berthnasol i nifer cyfyngedig o gynhyrchion bwyd yn unig, y mae pob un ohonynt yn cael eu dosbarthu o dan y categori "bwydydd eraill", lle mae lefel uchaf o 100 becquerel¹ y cilogram (Bq/kg) yn berthnasol.

Mae Atodiad 1 Rheoliad a ddargedwir 2016/6 hefyd yn cynnwys y lefelau uchaf ar gyfer bwyd anifeiliaid. O ystyried y data sydd ar gael, ni ddangosir bod unrhyw gynhyrchion y gellir eu defnyddio fel bwyd anifeiliaid yn uwch na'r lefelau hyn.

Mae'r rheolaethau manylach cyfredol yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno datganiadau a hysbysiad ymlaen llaw wrth fewnforio rhai bwydydd, gan gynnwys madarch, llysiau gwyllt a rhai rhywogaethau o bysgod, o Japan. Rhaid i'r datganiad ardystio nad oedd y cynnyrch naill ai'n tarddu o'r rhanbarthau wedi'u rhestru neu, os oedd yn tarddu oddi yno, fod y cynnyrch wedi'i brofi a bod lefel y radiocesiwm yn is na'r terfyn o 100 Bq/kg. Gellir gweld y bwydydd sydd wedi'u rhestru ar gyfer pob rhanbarth yr effeithir arnynt [yn Atodiad 2 Rheoliad a ddargedwir 2016/6](#)².

¹ Mae becquerel yn uned ymbelydredd sy'n cael ei diffinio fel un atom mewn deunydd sy'n profi dadfeilio ymbelydrol bob eiliad ac yn rhyddhau egni ar ffurf ymbelydredd

² Diwygiwyd Rheoliad yr UE 2016/6 gan Reoliad 2017/2058 a Rheoliad 2019/1787, y ddau ohonynt yn diweddarau ac yn disodli Atodiad II. Mae Rheoliad a Ddargedwir 2016/6 yn cyfeirio at y Rheoliad fel yr oedd yn bodoli am 11pm ar 31 Rhagfyr 2020 (diwedd y cyfnod pontio yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE) ac yn ymgorffori diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol ac ati.) (Ymadael â'r UE) 2020. Mae Rheoliad a Ddargedwir 2016/6 yn ymgorffori'r diwygiadau blaenorol hyn i Atodiad II.

Cynhelir gwiriadau hefyd pan fewnforir y cynhyrchion hyn i'r DU, gan gynnwys cymryd samplau i'w dadansoddi mewn labordy ar hap (yn 2011, roedd angen dadansoddiad labordy ar gyfer o leiaf 10% o lwythi, ac ar 5% o lwythi rhwng 2012 a 2014. Ers 2014, bu dadansoddiad labordy ar hap ar gyfer dim mwy na 5% o lwythi). Yn ystod y 10 mlynedd y bu'r rheolaethau hyn ar waith, ni fu unrhyw achosion lle mae'r gwiriadau hyn wedi canfod lefelau uwch na 100 Bq/kg ar gynhyrchion wedi'u mewnforio i'r DU. Ar draws yr UE gyfan, dim ond un enghraifft a gofnodwyd ac roedd hyn o fewn y flwyddyn gyntaf yn dilyn y ddamwain.

Adolygu

Mae'r rheolaethau hyn yn fesur ymyrraeth frys yn dilyn damwain niwclear Fukushima. Fel mesur brys, bwriadwyd i'r ymyrraeth fod dros dro, ac y byddai dim ond yn berthnasol i'r graddau angenrheidiol i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r ymyrraeth yn gosod cost ar fewnforio bwyd o Japan, o brofi bwyd cyn ei allforio, cael yr ardystiad mewnforio cywir a'r rheolaethau swyddogol sy'n cael eu cynnal wrth fewnforio i'r DU. Dylai'r rheolaethau gael eu hadolygu i ystyried a oes angen ymyrraeth yn y maes hwn o hyd.

Dros amser, mae lefelau halogiad mewn bwyd wedi gostwng oherwydd cyfuniad o ddadfeilio ymbelydrol, prosesau hindreulio a chmau adfer gan y llywodraeth a'r diwydiant amaethyddol yn Japan. Mae dyddiadau adolygu wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth fel y gellir ystyried y lefel ymyrraeth briodol. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi adolygu'r rheolaethau hyn yn rheolaidd i ystyried y sefyllfa sy'n newid wrth i'r ardal leol adfer yn dilyn y ddamwain. Ym mhob adolygiad, ystyriwyd data ar halogiad bwyd yn Japan, a diwygiwyd y rheolaethau. Mewn adolygiadau diweddar, mae'r ystod o fwyd a gwmpesir gan y rheolaethau a'r rhanbarthau lle mae angen gwiriadau manylach cyn eu hallforio wedi lleihau gan fod gwaith monitro wedi dangos bod llai o fwydydd wedi'u halogi.

Fel Aelod-wladwriaeth o'r UE, cymerodd y DU ran yn adolygiadau blaenorol y Comisiwn Ewropeaidd ac wrth ystyried opsiynau rheoli risg. Yr adolygiad cyfredol hwn yw'r diweddaraf yn y broses hon a'r cyntaf a gynhaliwyd ers i'r DU ymadael â'r UE. Mae'r adolygiad wedi dilyn y broses dadansoddi risg a sefydlwyd gan yr ASB a FSS, [Sut mae dadansoddi risg yn sicrhau bod bwyd a bwyd anifeiliaid yn ddiogel](#), gan gynnwys asesiad o'r risg i iechyd y cyhoedd o fwyta bwyd wedi'i fewnforio i'r DU o Japan os caiff y lefelau uchaf o radiocesiwm ar fwyd a fewnforir o Japan eu dileu. Gan fod data monitro yn

dangos bod yr unig fwydydd sy'n gallu bod yn fwy na'r lefelau uchaf yn Atodiad 1 yn y categori bwyd arall, mae'r asesiad risg wedi'i seilio ar y lefel hon o 100 Bq/kg. Yn yr un modd, gan fod data'n dangos nad oes unrhyw gynhyrchion bwyd anifeiliaid yn uwch na'r lefelau uchaf yn Atodiad 1, ystyriwyd bod hyn y tu allan i gwmpas yr asesiad risg.

Mae aseswyr risg yr ASB wedi cynhyrchu asesiad risg. Mae'r asesiad risg wedi'i adolygu'n annibynnol gan y Pwyllgor ar Agweddau Meddygol Ymbelydredd yn yr Amgylchedd (COMARE), pwyllgor cynghori gwyddonol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Casgliad yr asesiad risg yw, yn seiliedig ar yr asesiad hwn, y byddai cael gwared ar y lefel uchaf o 100 Bq/kg ar radiocesium ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio o Japan yn arwain at gynnydd dibwys yn y dos ac unrhyw risg gysylltiedig i ddefnyddwyr y DU.

Mae diogelwch bwyd yn fater datganoledig a bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan weinidogion ym mhob gwlad ddatganoledig. Bydd angen is-ddeddfwriaeth ym mhob gwlad ddatganoledig i ddiwygio, dirymu neu ddisodli Rheoliad a ddargedwir 2016/6. Y bwriad yw y bydd deddfwriaeth i weithredu canlyniad yr adolygiad hwn yn dod i rym yng Ngwanwyn 2022.

Risgiau ymbelydredd

Mae lefelau isel o ymbelydredd yn bresennol yn y bwyd rydym ni'n ei fwyta o ffynonellau naturiol ac artiffisial. Yn gyffredinol mae effeithiau ymbelydredd ïoneiddio ar iechyd yn dibynnu ar y dos.

Mae'r potensial am niwed gan ymbelydredd yn cael ei fesur yn nhermau'r dos, wedi'i fesur mewn milisieverts (mSv). Mae'r dos yn gyfuniad o lefel ymbelydredd yn y bwyd (wedi'i fesur mewn Bq/kg), faint o fwyd sy'n cael ei fwyta, a ffactor (cyfernod dos) sy'n dibynnu ar y radioniwclid sy'n bresennol (er enghraifft cesiwm-137). Mae dos uwch yn cynrychioli risg oes uwch o ganser.

Mae'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelwch Ymbelydrol (ICRP) yn argymhell na ddylai aelodau'r cyhoedd dderbyn dim mwy na phen isaf 1 i 20 mSv y flwyddyn mewn sefyllfa gyfredol o ran dod i gysylltiad ag ymbelydredd, fel y cysylltiad parhaus yn dilyn damwain Fukushima, Cyhoeddiad ICRP 103 - [The 2007 Recommendations of the International Commission on Radiological Protection](#). Mae asesiad risg yr ASB yn amcangyfrif na

fyddai'r dos i ddefnyddwyr y DU yn fwy na 0.016 mSv y flwyddyn o ganlyniad i fwyta bwyd wedi'i fewnforio o Japan, sy'n llai na 2% o ben isaf yr ystod a argymhellir gan ICRP.

Er cymhariaeth, y dos ymbelydredd cyfartalog i aelodau'r cyhoedd yn y DU yw 2.7mSv o'r holl ffynonellau naturiol ac artiffisial, [Ionising radiation and you \(UKHSA\)](#).

Dewisiadau

Dewis 1 – Gwneud dim a chadw'r rheolaethau cyfredol

Ar gyfer y dewis hwn, byddai'r rheolaethau cyfredol yn aros ar waith ym Mhrydain Fawr. Byddai gweithredwyr busnesau bwyd sy'n mewnforio bwyd o Japan yn parhau i ysgwyddo costau rheolaethau swyddogol ar fewnforio i Brydain Fawr.

Ni fyddai angen unrhyw ddeddfwriaeth i'r rheolaethau hyn barhau, ond efallai y bydd angen diwygiad i bennu dyddiad adolygu newydd. Gan fod y rheolaethau hyn wedi'u rhoi ar waith fel mesurau brys, mae'n briodol adolygu'r sefyllfa'n rheolaidd. Cynigir mai 30 Mehefin 2023 fyddai hwn, gan ddilyn y patrwm blaenorol o adolygu bob dwy flynedd.

Dewis 2 – Dileu'r rheolaethau presennol ar fwyd a bwyd anifeiliaid sy'n berthnasol yn benodol i halogiad o ganlyniad i ddamwain niwclear Fukushima (Dewis a Ffefrir)

Dyma'r dewis a ffefrir. Ar gyfer y dewis hwn, byddai deddfwriaeth ddomestig yn cael ei dwyn ymlaen yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i ddirymu Rheoliad a ddargedwir 2016/6. Ni fyddai bellach yn ofynnol cael datganiadau mewn perthynas â lefelau halogiad ymbelydrol ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio o Japan gyda chyrchfan ym Mhrydain Fawr. Ni fyddai unrhyw ofyniad chwaith i brofi am lefelau radiocesiwm cyn allforio bwydydd sydd i fod ar gyfer Prydain Fawr, na rheolaethau swyddogol manylach wrth gyrraedd. Byddaiangen datganiadau o hyd ar rai o'r bwydydd sy'n cael eu mewnforio o Japan, a rheolaethau swyddogol am resymau diogelwch bwyd eraill lle cânt eu dosbarthu fel bwydydd risg uchel (er enghraifft pysgod o dan y gofynion hylendid ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid).

Byddai costau is i weithredwyr busnesau bwyd o ganlyniad i gael gwared ar y costau sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â'r rheolaethau manylach.

Byddai hyn yn dilyn canlyniad ein hasesiad risg, sy'n dangos bod dileu'r rheolaethau hyn yn cynrychioli cynnydd dibwys mewn risg i ddefnyddwyr y DU. Heb reolaethau mewnforio penodol, byddai'r pwyslais yn disgyn ar weithredwyr busnesau bwyd i sicrhau bod bwyd

yn ddiogel o dan Gyfraith Bwyd Gyffredinol (Rheoliad a ddargedwir 178/2002). Fodd bynnag, nid ydym ni o'r farn y byddai angen i weithredwyr busnesau bwyd gymryd unrhyw ragofalon y tu hwnt i'w diwydrwydd dyladwy arferol ac felly ni ddylai fod unrhyw gostau ychwanegol i weithredwyr busnesau bwyd.

Dewis 3 – Cadw'r lefelau uchaf presennol o radioceswm ar fewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid o Japan ond addasu'r rhestr o fwydydd a rhanbarthau a gwmpesir gan y rheolaethau manylach

Ar gyfer y dewis hwn, byddai'r rheolaethau'n aros ar waith ond byddai deddfwriaeth ddomestig yn cael ei dwyn ymlaen yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i addasu cwrmpas y rheolaethau yn unol ag adolygiadau blaenorol a gynhaliwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Byddai'r gofyniad am brofion cyn-allforio yn cael ei ddileu ar sail pob rhanbarth unigol, lle nad yw'r monitro yn Japan yn dangos unrhyw achosion lle mae bwyd o'r rhanbarth honno yn uwch na 100 Bq/kg yn y flwyddyn galendr ddiwethaf, neu'r ddwy flynedd galendr ddiwethaf ar gyfer rhanbarth Fukushima.

Byddai cymhwyso'r meini prawf hyn yn cael gwared ar ofyniad am ddatganiadau ar gyfer yr holl bysgod ac eithrio'r eog a thorgoch, yn ogystal ag egin bambŵ a phersimon.

Byddai angen datganiadau o hyd ar gyfer eog a thorgoch gan bob rhanbarth yn Japan, gyda phroffion cyn-allforio os ydynt yn tarddu o ranbarthau Fukushima a Gunma. Byddai angen datganiadau o hyd ar gyfer madarch a llysiau gwyllt penodol (gan gynnwys koshiabura, a rhedyn) o Japan gyfan, gyda phroffion cyn-allforio yn rhanbarthau Fukushima, Miyagi, Ibaraki, Gunma, Iwate, Yamagata, Niigata, Yamanashi, Nagano a Shizuoka. Byddai rhanbarthau Tochigi a Chiba yn cael eu tynnu o'r rhanbarthau penodedig lle mae angen profi cyn-allforio ar gyfer y bwydydd rhestredig sy'n weddill.

Byddai gweithredwyr busnesau bwyd sy'n mewnforio bwyd o Japan yn parhau i orfod ysgwyddo costau gan allforwyr o Japan ar gyfer y dadansoddiad labordy a chael y datganiadau cywir, a chostau rheolaethau swyddogol ar fewnforio i Brydain Fawr. Fodd bynnag, byddai hyn yn dal i fod yn arbediad o'i gymharu â Dewis 1 gan y byddai angen y mesurau hyn ar lai o fwydydd.

Byddai'r dewis hwn yn gofyn am is-ddeddfwriaeth i ddiwygio'r rhestr o fwydydd a rhanbarthau a gwmpesir gan y rheolaethau manylach ac i bennu dyddiad adolygu newydd. Gan fod y rheolaethau hyn wedi'u rhoi ar waith fel mesurau brys, mae'n briodol

adolygu'r sefyllfa'n rheolaidd. Cynigir mai 30 Mehefin 2023 fyddai hwn, gan ddilyn y patrwm blaenorol o adolygu bob dwy flynedd.

Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd yr UE [Reoliad 2021/1533 yr UE](#) a ddisodlodd Reoliad 2016/6 yr UE yn yr UE. Cymhwysodd y rheoliad newydd hwn newidiadau tebyg, ond heb fod yr un fath, i'r rhai a gynigiwyd ar gyfer y dewis hwn. Y prif wahaniaeth yw nad yw'r UE wedi diwygio'r rhestr o rywogaethau pysgod yn Atodiad II sy'n golygu bod nifer mwy o rywogaethau pysgod yn parhau i fod yn destun rheolaethau yn yr UE nag a gynigir yn y dewis hwn. Nid yw'n glir ar ba sail y mae'r UE wedi cadw rheolaethau ar nifer ehangach o rywogaethau pysgod gan fod y canlyniadau monitro helaeth a gyhoeddwyd gan awdurdodau Japan yn dangos lefelau isel o halogiad ym mhob rhywogaeth pysgod arall a gafodd ei monitro.

Gogledd Iwerddon

O dan delerau cyfredol Protocol Gogledd Iwerddon, byddai Gogledd Iwerddon yn parhau i gymhwyso Rheoliadau'r UE. Sylwch fod Llywodraeth y DU wedi nodi yn ei Phapur Gorchymyn – The way forward– newidiadau i rai elfennau o'r Protocol ac mae'n ymgysylltu â'r UE ar y cynigion hyn.

Mae'r UE hefyd wedi adolygu a diwygio ei Reoliad, ond mae wedi dod i benderfyniadau gwahanol i'r dewisiadau a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn. Gallai fod effaith bosibl ar Ogledd Iwerddon oherwydd y gwahaniaeth rhwng Prydain Fawr a phenderfyniadau'r UE o ran codi'r rheolaethau ar fewnforion ai peidio yn dilyn damwain Fukushima. Mae Gogledd Iwerddon yn cyd-fynd â deddfwriaeth rheolaeth swyddogol yr UE, felly, bydd Gogledd Iwerddon yn gweithredu Rheoliad 2021/1533 a bydd rheolaethau yng Ngogledd Iwerddon yn aros yn eu lle.

Dewis 1: Oherwydd y newid yn Rheoliadau'r UE, mae angen gwiriadau manylach ar lai o fwydydd wrth eu mewnfario i'r UE, ac o ganlyniad i Ogledd Iwerddon, nag sy'n ofynnol i'w mewnfario i Brydain Fawr. Gallai'r bwydydd hyn symud i Brydain Fawr o Ogledd Iwerddon o dan reolau mynediad dirwysr i'r farchnad. Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw symudiadau o'r fath o ran y cynhyrchion hyn ac mae ein hasesiad risg yn dangos y byddai cynnydd dibwys yn y risg i ddefnyddwyr y DU pe bai'r cynhyrchion hyn yn cael eu gwerthu yn y DU.

Dewis 2: Os yw Prydain Fawr yn dileu'r rheolaethau manylach, byddai effaith ar unrhyw lif cynhyrchion a reolir yn Japan sy'n symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon. Y rheswm am hyn yw na fyddai angen rheolaethau ar gynnyrch rheoledig sy'n cyrraedd Prydain Fawr o Japan. Fodd bynnag, pan fydd yn teithio ymlaen i Ogledd Iwerddon, byddai'n dod yn ddarostyngedig i reolaethau o dan Reoliad yr UE. Felly, byddai angen datganiadau a gyhoeddir gan awdurdodau Japan ar gyfer nwyddau perthnasol o Japan sy'n cael eu symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, a gallai costau gael eu codi wrth gael y rhain i fasnachwyr y tu allan i'r Cynllun ar gyfer Symudiadau Bwyd-Amaeth Dros Dro i Ogledd Iwerddon (STAMNI).

Dewis 3: Os bydd Prydain Fawr yn lleihau'r rheolaethau manylach, bydd effaith ar Ogledd Iwerddon yn yr ystyr y gallai unrhyw symudiadau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon y tu allan i STAMNI arwain at gostau ychwanegol i fewnforwyr Gogledd Iwerddon os nad oes angen gwiriadau ar gynhyrchion ym Mhrydain Fawr, ond bod angen rheolaethau arnynt i gael mynediad i Ogledd Iwerddon.

Nid oes gennym ni unrhyw dystiolaeth bod y bwydydd rhestredig o Japan yn cael eu mewnfario i Brydain Fawr gyda chyrchfan ymlaen yng Ngogledd Iwerddon. Mae hyn oherwydd yr ystod gyfyngedig o fwydydd sy'n parhau i fod yn ddarostyngedig i'r rheolaethau hyn ac sy'n annhebygol o gael eu mewnfario i'w prosesu ymhellach; maent yn fwyaf tebygol o gael eu mewnfario yn uniongyrchol gan fwytai Japaneaidd neu fanwerthwyr arbenigol bwydydd Japaneaidd yn y DU.

Effeithiau

Cynhyrchwyd Asesiad Effaith drafft ledled y DU ar gyfer pob un o'r dewisiadau hyn ac mae wedi'i gynnwys fel Atodiad B i'r ymgynghoriad hwn.

Nid oes unrhyw gostau na buddion yn gysylltiedig â Dewis 1. Dyma'r llinell sylfaen ar gyfer gwerthuso'r holl ddewisiadau eraill.

Amcangyfrifir bod y Budd Net (Gwerth Presennol) ar gyfer Dewis 2 yn £0.018 miliwn (amcangyfrif isel o £0.002 miliwn, amcangyfrif uchel o £0.034 miliwn) ac ar gyfer Dewis 3 amcangyfrifir ei fod yn £0.009 miliwn (amcangyfrif isel £0.001 miliwn, amcangyfrif uchel £0.016 miliwn).

Mae buddion allweddol eraill nad ydynt yn ariannol yn cynnwys arbedion o ran bwyd yn para (*perishability*) (gostyngiad mewn cynhyrchion sy'n difetha yn y porthladd tra bo rheolaethau swyddogol yn cael eu cynnal) a hwyluso masnach.

Cwestiynau

Esboniwch eich atebion cymaint ag y gallwch, a lle bo ar gael, dylech gynnwys tystiolaeth i gefnogi eich barn.

1. A ydych yn cytuno y dylid mabwysiadu Dewis 2 i gael gwared ar y rheolaethau manylach hyn ar fwyd o Japan, fel yr amlinellwyd uchod?
2. A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth bod unrhyw un o'r bwydydd rhestredig o Japan yn cael eu mewnfario i Brydain Fawr (Cymru, Lloegr neu'r Alban) i'w gwerthu ymlaen yng Ngogledd Iwerddon?
3. A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth bod unrhyw un o'r bwydydd rhestredig o Japan yn cael eu mewnfario i Brydain Fawr (Cymru, Lloegr neu'r Alban) i'w gwerthu ymlaen yn yr Undeb Ewropeaidd?
4. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol ar y dewisiadau arfaethedig neu dystiolaeth berthnasol ychwanegol y dylid eu hystyried?

Ymatebion

Mae angen ymatebion erbyn diwedd y dydd ar **11 Chwefror 2022**. Yn eich ymateb, nodwch a ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli).

Anfonwch eich ymateb at radiation@food.gov.uk

I gael gwybodaeth am sut mae'r ASB yn trin eich data personol, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer Ymgynghoriadau, sydd i'w gael yma:
<https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/hysbysiad-preifatrwydd-ymgynghoriadau>.

Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y swyddog cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag [egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi](#).

Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Chris Thomas

Bwydydd Radiolegol, GM a Newydd

Cyfarwyddiaeth Polisi Bwyd